

# Parc Croesonen

## Plannu ar Ymyl y Coetir

Y bwriad yw creu ymyl coetir trwy hadu a gwladychu naturiol. Ymyl y coetir i'w blannu gyda'r egin-goed canlynol (0.5m-1m o uchder), i'w diogelu gan diwb biöddiraddadwy a'i osod gyda gwail. Yr egin-goed i'w hamgylchynu gan domwellt rhisgl 500mm o led. Yr egin-goed i'w plannu tua 3-4m ar wahan mewn trefn ar hap. Y pridd i gael ei drin yn ysgafn i ddyfnder 50mm i dorri'r wyneb gan ddefnyddio dannedd fforch a rholer. I'w hadu gyda 1 cilogram o gymysgeidd hadau blodau gwylt coetir Emorsgaté EW1F (neu ddewis arall a gymeradwywyd gan y Cyngor). Hadau i gael eu cymysgu â thywod i gynorthwyo gyda hau cyfartal. Yr ardal i gael ei hamlinellu gyda pholion pren i rybuddio torwyr gwair o'r ymyl newydd ac arwyddion i gael eu darparu ar gyfer y cyhoedd.

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol	Yn frodonol i'r DU?	Maint	Nifer y planhigion
Cwyrwialen	<i>Cornus sanguinea</i>	Ydy	>1m	26
Celyn	<i>Ilex aquifolium</i>	Ydy	>1m	26
Collen	<i>Corylus avellana</i>	Ydy	>1m	26
Ysgawen y Gors	<i>Viburnum opulus</i>	Ydy	>1m	26

## Gwella Dolydd Blodau Gwylt

Mae yna ddolydd presennol (â thoriad blynyddol) gyda llwybrau wedi'u torri drwodd. Bydd y dolydd hyn yn cael eu gwella trwy hau cribell felen fach *Rhinanthus*, sy'n gwanhau glaswellt ac yn caniatáu rhagor o wladychu gan flodau gwylt. Ardal i'w drin yn ysgafn gyda dannedd fforch a'i hau gyda chyfanswm cribell felen fach o 1 cilogram ar draws y safle. Cribell felen fach i'w gyflenwi gan Emorsgaté, Celtic Wildflowers neu ddewis arall a gymeradwywyd gan y Cyngor.

## Nodwedd Helyg Aml-goes

Yn defnyddio boncyffion helyg wedi'u torri'n ddiweddar i ddynwared hen goeden. Nodwedd i fod yn 3m o ddiamedr ac wedi'i hadeiladu o tua 30 i 40 o boncyffion helyg (gellir cymysgu unrhyw rywogaeth - bydd y nifer yn dibynnu ar union faint y boncyffion a'r ffynonellau), fel arfer 100-150mm mewn diamedr ac wedi'u trefnu mewn cylch. Dylai boncyffion fod yn gymharol syth i leihau'r bylchau, fodd bynnag, mae rhai bylchau bach yn dderbyniol os yw'r rhan fwyaf o arwynebau'r logiau'n cyffwrdd. Logiau i gael eu gosod mewn ffos gyfichol 600mm o ddyfnder, a'r uchder allan o'r ddaear i fod o leiaf 3m ac uchafswm o 3.2m. Logiau i gael eu tynnu at ei gilydd i annog cydiad gan ddefnyddio dau gebl dur dros drô gyda bylchau tro. Blociau pren i amddiffyn wyneb y boncyffion rhag y ceblau dur yn torri i mewn iddynt. Y tu mewn i'r cylch i'w sefydlogi gyda ffrâm 'olwyn a ffoi' bren wedi'i gwneud o bren gwyrded wedi'i gosod ar dri phostyn cynhaliol, 1.5m uwchben lefel y ddaear.



Alhwedd

- Plannu ar Ymyl y Coetir
- Gwella Dolydd Blodau Gwylt
- Coedd presennol

- Nodwedd Helyg Aml-goes
- Chwipiaid coed

Prepared by The GIC on behalf of Monmouthshire County Council  
Contact: gary@thegic.com

Date of Issue: 131223  
GIC\_0001101



Monmouthshire Local  
Nature Partnership



Partneriaeth Natur  
Lleol Sir Fynwy